GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Tim Amddiffyn Iechyd
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 4, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ

Health Protection Team
Public Health Wales, Floor 4, Number 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff,CF10 4BZ

Ffôn/Tel: 0300 00 300 32 · 02920 442981
Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

8fed Mawrth 2018

Y frech goch yn ardal Casnewydd a Thorfaen

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Y Frech Goch yn ardal De Ddwyrain Cymru

Efallai eich bod chi wedi clywed neu gweld gwybodaeth yn y newyddion yn barod, ond rydym yn ysgrifennu er mwyn rhoi gwybod i chi fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o achosion o'r frech goch yn ardal De Ddwyrain Cymru ar hyn o bryd.

Mae'r frech goch yn hynod heintus ac yn gyffredinol bydd yn ymledu o un unigolyn i'r llall drwy besychu a thisian.

Ymhlith y symptomau cynnar mae'r canlynol:

- tymheredd uchel
- peswch
- llid yr amrannau (llygaid coch, poenus)
- ac weithiau sbotiau bach gwyn y tu mewn i'r geg.

Bydd y frech goch yn ymddangos tua 3 i 4 diwrnod yn ddiweddarach, sydd fel arfer yn dechrau ar yr wyneb ac yn ymledu i lawr dros weddill y corff.

Os yw eich plentyn yn datblygu symptomau, dylech ei gadw draw o'r meithrin neu ysgol ac o ddigwyddiadau cymdeithasol fel clybiau a phartion pen-blwydd.

Rydym yn annog rhieni i beidio â mynd â phlant yr ymddengys fod ganddynt symptomau'r frech goch i'r feddygfa, yr adran damweiniau ac achosion brys na'r ysbyty, lle gallent beryglu pobl eraill, heb ffonio ymlaen llaw yn gyntaf.

Dylai rhieni sy'n amau bod gan eu plentyn y frech goch gysylltu â'u meddyg teulu neu ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 am asesiad.

Brechiad MMR yw'r ffordd orau bosibl o ddiogelu rhag y frech goch. Os nad yw plant wedi cael y cwrs llawn o ddau frechiad MMR, efallai ni fyddant wedi eu diogelu'n llwyr. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â'ch meddyg teulu i drefnu pigiad.

Gellir cael gwybodaeth gyffredinol am y frech goch o'r wefan,
http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/y/article/Yfrechgoch/
Ac am y brechiad MMR o'r wefan
http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/doityourself/vaccinations/MMR?locale=cy

Yn gywir,



Dr Rhianwen Stiff
Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy